IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU

DYDD IAU, 15 EBRILL 2021

Yn bresennol: Cynghorydd Mackie(Cadeirydd)

Cynghorwyr Goddard a/ac Jacobsen

4 : DATGAN BUDDIANNAU

Dim.

5 : CAIS AM HYSBYSIAD DIGWYDDIADAU DROS DRO - CFELEVEN, HEOL Y GADEIRLAN - 29 EBRILL 2021 (I DDILYN)

Yn Bresennol

Ymgeisydd: Mr Jason Hamer

Awdurdodau Cyfrifol: Tomos Jenkins, Gwasanaethau Cymdogaeth

Y Cais

1.1 Derbyniwyd Hysbysiad Digwyddiad Dros Dro ar 6 Ebrill 2021 gan: Mr Jason Arthur Hamer am awdurdodi digwyddiad dros dro yn: CFEleven, 151 Heol y Gadeirlan, Caerdydd, CF11 9PJ.

1.2 Mae'r hysbysiad yn ymwneud â digwyddiad a fydd yn cael ei gynnal rhwng 21:00 o'r gloch a 23:30 o'r gloch rhwng 29 Ebrill 2021 a 1 Mai 2021 i ganiatáu gwerthu alcohol drwy fanwerthu.

1.3 Mae rhoddwr yr hysbysiad wedi rhoi'r wybodaeth ganlynol ynglŷn â natur y digwyddiad:

"Ailagor y safle gan ddefnyddio'r gofod y tu allan i hwyluso ymbellhau cymdeithasol gan alluogi cwsmeriaid i yfed alcohol yn yr ardd tan 23.30 ddydd Iau, dydd Gwener a dydd Sadwrn"

Dywedodd y Cadeirydd, gan fod yr holl Geisiadau ar gyfer Hysbysiadau Digwyddiad Dros Dro ar yr un safle ond ar gyfer dyddiadau gwahanol, y byddai'r ceisiadau'n cael eu hystyried gyda'i gilydd.

Sylwadau'r Ymgeisydd

Dywedodd yr ymgeisydd ei fod wedi gwneud cais am HDDDau a oedd yr un fath ag yr oedd wedi gwneud cais amdano o'r blaen. Ychwanegodd bod y safle wedi bod ar gau am bum mis oherwydd cyfyngiadau Covid; ar hyn o bryd mae'r ardd gwrw yn cau am 9pm o ddydd Sul i ddydd Iau a 10pm ddydd Gwener a dydd Sadwrn. Esboniodd yr ymgeisydd ei fod yn gwneud cais am gael gorffen am 23:00 gyda'r bwriad o alw archebion olaf am 22:15, gan ganiatáu amser i glirio'r ardd gwrw dros yr amser sy'n weddill ac osgoi tagfeydd o bawb yn gadael ar yr un pryd. Ychwanegodd bod arwyddion yn yr ardd yn gofyn i bobl adael yn dawel; mae sied weddol fawr yn yr ardd gwrw ac mae cefn y babell yn atal pobl rhag gweld i mewn a gobeithio'n helpu i atal sŵn; nid oes seinwyr allanol felly dim ond sŵn siarad fydd hynny.

Pan ofynnwyd iddo a oedd wedi cyflogi arbenigwr acwsteg yn unol â chais Gwasanaethau Cymdogaeth, Rheoli Llygredd, dywedodd Mr Hamer nad oedd wedi gwneud hynny, mae'r babell yn eithaf caeedig ac mae wedi gwneud cymaint ag y gall i sicrhau bod sŵn yn cael ei leihau a dywedodd fod y llythyr gan adran Rheoli Llygredd yn dweud nad oedd niwsans statudol.

Pan ofynnwyd iddo a oedd yn ymestyn y lle a ddefnyddiwyd ar gyfer yr ardal allanol, dywedodd Mr Hamer nad oedd, mae'r un peth â'r hyn yr oedd wedi gwneud cais amdano o'r blaen.

Sylwadau'r Awdurdodau Cyfrifol
Eglurodd Mr Jenkins fod y trwyddedai wedi gwneud cais am amser gorffen am 23:30 a byddai hyn yn caniatáu i alcohol gael ei weini tan hynny. Ychwanegodd mai nad oherwydd rheoli'n wael yr ardd oedd y mater, ond yn hytrach oherwydd agosrwydd y tai gerllaw sy'n arwain at niwsans cyhoeddus.

Ar yr amseroedd a ganiateir ar hyn o bryd, mae'n ddigon posibl y bydd yn achosi niwsans. Roedd wedi dweud o'r blaen, er na all ei orfodi, ei fod wedi argymell bod yr ymgeisydd yn siarad ag ymgynghorydd sain.

Dywedodd Mr Jenkins nad oedd tystiolaeth y byddai'r babell, wrth guddio'r llinell olwg, yn lleihau unrhyw niwsans sŵn.

Dywedodd Mr Jenkins, er bod HDDDau wedi'u cyflwyno yn y gorffennol, ar adeg yr HDDDau hynny ni dderbyniwyd unrhyw gwynion. Roedd hyn o ganlyniad i'r gweithgaredd trwyddedadwy blaenorol ac felly ni chyflwynwyd unrhyw dystiolaeth a fyddai'n arwain at wrthwynebiad, ond erbyn hyn y cafwyd cwynion sydd wedi'u monitro. Ychwanegodd, er mai'r sŵn posibl fyddai pobl yn siarad, na fyddai amlygu'r preswylwyr cyfagos i hyn am 6-7 awr y tro yn hyrwyddo'r amcanion trwyddedu.

I grynhoi.
Dywedodd Mr Hamer y byddai'n hapus i'r drwydded orffen am 23:00 ac os bydd yn gorffen gwasanaethu am 22.15, bydd pobl yn gorffen eu diodydd dros gyfnod o 45 munud, ac yn gadael yr ardd yn raddol. Cafwyd trafodaeth ynghylch yr amodau ar y drwydded a bod y ceisiadau hyn ar wahân gan mai HDDDau oeddent.

PENDERFYNWYD: Wedi ystyried yr holl wybodaeth ac yn unol â gofynion Deddf Trwyddedu 2003, Canllaw Adran 182 a Pholisi Datganiad Trwyddedu yr Awdurdod Trwyddedu, bod yr is-bwyllgor yn GWRTHOD y cais.

6 : CAIS AM HYSBYSIAD DIGWYDDIADAU DROS DRO - CFELEVEN, HEOL Y GADEIRLAN - 6 MAI 2021 (I DDILYN)

PENDERFYNWYD: Wedi ystyried yr holl wybodaeth ac yn unol â gofynion Deddf Trwyddedu 2003, Canllaw Adran 182 a Pholisi Datganiad Trwyddedu yr Awdurdod Trwyddedu, bod yr is-bwyllgor yn GWRTHOD y cais.

7 : CAIS AM HYSBYSIAD DIGWYDDIADAU DROS DRO - CFELEVEN, HEOL Y GADEIRLAN - 13 MAI 2021 (I DDILYN)

PENDERFYNWYD: Wedi ystyried yr holl wybodaeth ac yn unol â gofynion Deddf Trwyddedu 2003, Canllaw Adran 182 a Pholisi Datganiad Trwyddedu yr Awdurdod Trwyddedu, bod yr is-bwyllgor yn GWRTHOD y cais.

8 : CAIS AM HYSBYSIAD DIGWYDDIADAU DROS DRO - CFELEVEN, HEOL Y GADEIRLAN - 20 MAI 2021 (I DDILYN)

PENDERFYNWYD: Wedi ystyried yr holl wybodaeth ac yn unol â gofynion Deddf Trwyddedu 2003, Canllaw Adran 182 a Pholisi Datganiad Trwyddedu yr Awdurdod Trwyddedu, bod yr is-bwyllgor yn GWRTHOD y cais.

9 : EITEMAU BRYS (OS OES RHAI)

Dim.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.00 am